# Blodeuwedd

Roedd Lleu Llaw Gyffes yn fab i'r Dduwies Arianrhod. Gosododd Arianrhod dair melltith ar ei mab, un yn dweud na fyddai byth yn priodi gwraig o'r Ddaear hon. Ceisiodd Gwydion a Math y dewiniaid, helpu Lleu drwy greu priodferch iddo allan o flodau, defnyddiwyd nifer o wahanol flodau i wneud priodferch hardd. Ei henw oedd Blodeuwedd.



Priododd Lleu a Blodeuwedd ac i ddechrau bu'r ddau'n byw yn hapus. Roedd Lleu wedi cael tir i'w reoli ar ôl priodi Blodeuwedd. Roedd yn deg ac yn ddoeth, ond, yn anffodus, treuliodd y rhan fwyaf o'i amser i ffwrdd o Blodeuwedd.




Cyfarfu Blodeuwedd ddyn o'r enw Gronw Pebr, a syrthiodd mewn cariad ag ef. Triciodd Blodeuwedd Lleu i ddweud wrthi sut y gellir ei ladd (roedd hyn yn un o felltithion ei fam). Dywedodd nad oedd posib ei ladd yn ystod y dydd, nac ychwaith ei ladd dan do neu yn yr awyr agored, neu pan oedd e'n cerdded na marchogaeth, na chan unrhyw arf a wnaethpwyd yn gyfreithlon. Dywedodd wrthi mai dim ond gyda'r nos oedd posib i'w ladd ef a bod rhaid ei lapio mewn rhwyd gydag un troed ar balmur ac un ar afr. Byddai'n rhaid aros blwyddyn i'w ladd yn defnyddio sgorfa yn ystod yr oriau pan fydd pawb mewn màs.



Blwyddyn yn ddiweddarach, mae Gronw yn taflu gwaywffon i ladd Lleu. Trodd Lleu yn eryr a

hedfanodd i ffwrdd! Mae Gwydion yn penderfynu mynd i chwilio am Lleu. Mae'n dod o hyd iddo yn uchel mewn coeden dderwen ac yna'n ei droi yn ôl yn ddyn. Roedd Blodeuwedd mor ofnus, wnaeth hi ddianc i'r mynyddoedd. Fodd bynnag, aeth Lleu ar ei hôl a'i throi yn dylluan. Erfyniodd Gronw am faddeuant gan ddweud "rwy'n erfyn arnat i adael i mi roi carreg rhyngof i a'r ergyd!" Cytunodd Lleu gan osod y garreg rhyngddo ef a Gronw. Nid yw'r garreg yn atal gwaywffon Lleu: a lladdwyd Gronw.



# Blodeuwedd



Roedd Lleu Llaw Gyffes yn fab i'r Dduwies Arianrhod. Gosododd Arianrhod dair melltith ar ei mab, un yn dweud na fyddai byth yn priodi gwraig o'r Ddaear hon. Ceisiodd Gwydion a Math y dewiniaid, helpu Lleu drwy greu priodferch iddo allan o flodau, defnyddiwyd nifer o wahanol flodau i wneud priodferch hardd. Ei henw oedd Blodeuwedd, sy'n golygu 'gwyneb llawn blodau'.


Priododd Lleu a Blodeuwedd ac i ddechrau bu'r ddau'n byw yn hapus. Roedd Lleu wedi cael tir i'w reoli ar ôl priodi Blodeuwedd. Roedd yn deg ac yn ddoeth, ond, yn anffodus, treuliodd y rhan fwyaf o'i amser i ffwrdd o Blodeuwedd.

Cyfarfu Blodeuwedd ddyn o'r enw Gronw Pebr, ac yn gyflym iawn, syrthiodd mewn cariad ag ef. Triciodd Blodeuwedd Lleu i ddweud wrthi sut y gellir ei ladd (roedd hyn yn un o felltithion ei fam). Dywedodd nad oedd posib ei ladd yn ystod y dydd, nac ychwaith ei ladd dan do neu yn yr awyr agored, neu pan oedd e'n cerdded na marchogaeth, nid oedd posib iddo gael ei ladd mewn dillad neu yn noeth, na chan unrhyw arf a wnaethpwyd yn gyfreithlon. Dywedodd wrthi mai dim ond gyda'r nos oedd posib i'w ladd ef a bod rhaid ei lapio mewn rhwyd gydag un troed ar balmur ac un ar afr. Byddai'n rhaid aros blwyddyn i'w ladd yn defnyddio sgorfa yn ystod yr oriau pan fydd pawb mewn màs. Mae Blodeuwedd yn dweud wrth Gronw ac mae'n dechrau gwneud yr arf i ladd Lleu.



Blwyddyn yn ddiweddarach, mae Gronw yn taflu'r waywffon i ladd Lleu. Trodd Lleu yn eryr a hedfanodd i ffwrdd! Mae Blodeuwedd a Gronw yn awr yn rhydd i fyw gyda'i gilydd. Mae Gwydion yn penderfynu mynd i chwilio am Lleu. Mae'n dod o hyd iddo yn uchel mewn coeden dderwen ac yna'n ei

droi yn ôl yn ddyn. Gyda chymorth Gwydion a Math, mae Lleu yn adennill ei diroedd yn ôl o Gronw a Blodeuwedd. Roedd Blodeuwedd mor ofnus, wnaeth hi ddianc i'r mynyddoedd. Fodd bynnag, aeth Lleu ar ei hôl a'i throi yn dylluan. Erfyniodd Gronw am faddeuant gan ddweud "rwy'n erfyn arnat i adael i mi roi carreg rhyngof i a'r ergyd!" Cytunodd Lleu gan osod y garreg rhyngddo ef a Gronw. Nid yw'r garreg yn atal gwaywffon Lleu: a lladdwyd Gronw.



# Blodeuwedd



Roedd Lleu Llaw Gyffes yn fab i'r Dduwies Arianrhod. Gosododd Arianrhod dair melltith ar ei mab, un yn dweud na fyddai byth yn priodi gwraig o'r Ddaear hon. Ceisiodd Gwydion a Math y dewiniaid, helpu Lleu drwy greu priodferch iddo allan o flodau, defnyddiwyd nifer o wahanol flodau i wneud priodferch hardd. Gosododd y ddau'r blodau ar ben ei gilydd a chreu morwyn deg a phrydferth. Ei henw oedd Blodeuwedd, sy'n golygu 'gwyneb llawn blodau'.

Priododd Lleu a'i briodferch flodau, ac i ddechrau bu'r ddau'n byw yn hapus. Roedd Lleu wedi cael tir i'w reoli ar ôl priodi Blodeuwedd. Roedd yn deg ac yn ddoeth, ond, yn anffodus, treuliodd y rhan fwyaf o'i amser i ffwrdd o Blodeuwedd.

Cyfarfu Blodeuwedd ddyn o'r enw Gronw Pebr, arglwydd Penllyn ac yn gyflym iawn, syrthiodd mewn cariad ag ef. Triciodd Blodeuwedd Lleu i ddweud wrthi sut y gellir ei ladd (roedd hyn yn un o felltithion ei fam). Dywedodd nad oedd posib ei ladd yn ystod y dydd, nac ychwaith ei ladd dan do neu yn yr awyr agored, neu pan oedd e'n cerdded na marchogaeth, nid oedd posib iddo gael ei ladd mewn dillad neu yn noeth, na chan unrhyw arf a wnaethpwyd yn gyfreithlon. Dywedodd wrthi mai dim ond gyda'r nos oedd posib i'w ladd ef a bod rhaid ei lapio mewn rhwyd gydag un troed ar balmur ac un ar afr. Byddai'n rhaid aros blwyddyn i'w ladd yn defnyddio sgorfa yn ystod yr oriau pan fydd pawb mewn màs. Mae Blodeuwedd yn dweud wrth Gronw ac mae'n dechrau gwneud yr arf i ladd Lleu.

Blwyddyn yn ddiweddarach, mae Gronw yn taflu'r waywffon i ladd Lleu. Trodd Lleu yn eryr a hedfanodd i ffwrdd! Mae Blodeuwedd a Gronw yn awr yn rhydd i fyw gyda'i gilydd. Mae Gwydion yn penderfynu mynd i chwilio am Lleu. Mae'n dod o hyd iddo yn uchel mewn coeden dderwen. Drwy ganu englyn (a elwir yn englyn Gwydion), mae'n denu ef i lawr o'r goeden dderw a'i droi yn ôl i'w ffurf

ddynol. Gyda chymorth Gwydion a Math, mae Lleu yn adennill ei diroedd yn ôl o Gronw a Blodeuwedd. Roedd Blodeuwedd mor ofnus, wnaeth hi ddianc i'r mynyddoedd. Fodd bynnag, aeth Lleu ar ei hôl a'i throi yn dylluan - sy'n cael ei chasáu gan yr adar eraill ac sy'n greadur y nos. Ni fyddai hi yn gallu dangos ei hwyneb mewn golau ddydd byth eto.

Erfyniodd Gronw am faddeuant. Mae Lleu eisiau ef i ddioddef yr un dynged ag ef. Ond, cyn taflu'r waywffon, gwaeddodd Gronw "Rwy'n erfyn arnat i adael i mi roi carreg rhyngof i a'r ergyd!" Cytunodd Lleu gan osod y garreg rhyngddo ef a Gronw. Nid yw'r garreg yn atal gwaywffon Lleu: a lladdwyd Gronw.

